

Rhif: WG41413



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020

Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Reolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020* drafft arfaethedig.

Camau i'w cymryd Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill trwy wneud cais.

Manylion Cyswllt I gael rhagor o wybodaeth:

Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGFPmail@llyw.cymru

Copïau ychwanegol Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori a [Rheolau Pridiannau Tir Lleol \(Ffioedd\) \(Cymru\) 2020 drafft arfaethedig](#).

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cynigion	4
Ymgysylltu	5
Crynodeb o'r Ymatebion	6
Rheol 1 – Enwi, Cychwyn, Cymhwyso a Dehongli	6
Rheol 2 – Ffioedd	6
Rheol 3 – Dull Talu	6
Rheol 4 a 5 - Dirymu	7
Ystyriaethau eraill	7
Y camau nesaf	8
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr	9

Cyflwyniad

1. Amcan *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol Cofrestrfa Tir EM* ("HMLR") yw trosglwyddo Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yr holl awdurdodau lleol a'r awdurdodau gwreiddiol yng Nghymru a Lloegr i HMLR, fel bod y gofrestr o Bridiannau Tir Lleol yn cael ei gweinyddu ar ran y Prif Gofrestrydd Tir. Mae hyn yn gweithredu'r gyfundrefn a nodir yn Neddf Seilwaith 2015 ("Deddf"). Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i awdurdodau gwreiddiol yng Nghymru gydymffurfio ar ôl cael hysbysiad effeithiol o dan Ddeddf 2015 oddi wrth y Prif Gofrestrydd Tir.
2. Mae Pridiannau Tir Lleol yn fater a gedwir yn ôl ac eithrio'r ffi ragnodedig a'r dull o dalu am chwiliad swyddogol (a elwir hefyd yn 'chwiliad LLC1'), sydd wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru.
3. Yn wahanol i Loegr, ffi sefydlog yw fframwaith ffioedd Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru yn y system bresennol. Mae chwiliad swyddogol a wneir gan awdurdod gwreiddiol yng Nghymru yn costio £6. Yn Lloegr, gall hyn amrywio'n sylweddol o £3 i £50. O dan y Gofrestr HMLR ganolog, wedi'i digideiddio newydd, mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu ffi wedi'i rheoleiddio o £15 am chwiliad swyddogol.
4. Gan fod y system newydd yn cael ei chynnal gan HMLR, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu diwygio'r ffioedd rhagnodedig presennol a'r dulliau talu ar gyfer chwiliadau Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru, i gyd-fynd â'r rhai yn Lloegr. Bydd hyn yn sicrhau, unwaith y bydd HMLR yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, fod unffurfiaeth o ran darpariaeth a mynediad ledled Cymru a Lloegr.
5. Dechreuodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Reolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020* ('y Rheolau') ar 11 Awst 2020 ar wefan Llywodraeth Cymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Tachwedd 2020.
6. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn a chael sylwadau ar yr offeryn statudol drafft arfaethedig sy'n nodi'r Rheolau ac sy'n rhoi effaith i'r newidiadau yn y ffioedd a'r dulliau talu. Nid oedd yr ymgynghoriad hwn yn ymgynghori ar y gyfundrefn a nodwyd yn Neddf 2015, materion a gedwir yn ôl yn ymwneud â Pridiannau Tir Lleol, nac ar unrhyw fater sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cynigion

7. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ymatebwyr yn rhoi barn neu sylwadau ar y *Rheolau* arfaethedig. Prif ddiben y Rheolau yw cysoni strwythur ffioedd a dulliau talu ffioedd ar gyfer chwiliadau Pridiannau Tir Lleol Lleol yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys:
 - a. Diwygio'r ffi ragnodedig am chwiliad swyddogol a ffioedd am wasanaethau perthnasol eraill sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru, fel y nodir yn Atodlen Ffioedd y Rheolau drafft.
 - b. Diwygio'r dulliau taliadau i weithredu gyda'r porth ar-lein newydd.
 - c. Dirymu Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977 a diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018.
8. Mae'r Rheolau drafft arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt i'w gweld ar [wefan ymgynghori](#) (Saesneg yn unig).

Ymgysylltu

9. Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori o 12 wythnos a ddechreuodd ar 11 Awst 2020 ac a ddaeth i ben ar 3 Tachwedd 2020. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i'r ddogfen ymgynghori at randdeiliaid sydd â buddiant ym maes Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru.
10. Roedd y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy yn 'awdurdodau gwreiddiol' yng Nghymru yn bennaf, sef awdurdodau lleol yng Nghymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu hefyd â *Bwrdd Cynghori ar Bridiannau Tir Lleol* HMLR hefyd.
11. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg. Ceir rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**.
12. Cafwyd 6 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r mathau o ymatebwyr wedi'u dadansoddi yn y tabl isod.

Math o ymatebwyr	Nifer yr ymatebion
Corff Proffesiynol	1
Awdurdod Parc Cenedlaethol	1
Llywodraeth Leol	2
Unigolyn	1
Dienw	1
CYFANSWM	6

Crynodeb o'r Ymatebion

13. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n anelu at gasglu pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.
14. Dylid nodi hefyd mai dim ond lle'r oedd ymatebion yn berthnasol i'r ymgynghoriad y cawsant eu hystyried, gan fod rhai pwyntiau a godwyd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Fel mater a gedwir yn ôl a'r deiliaid polisi ar gyfer y mater hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r sylwadau hyn gyda HMLR i'w hystyried (nid yw manylion personol wedi'u rhannu â HMLR, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

Cwestiwn 1	Rydym yn gofyn am eich barn ar gynnwys y rheolau drafft a'u cymhwysiad ymarferol. Pa sylwadau neu sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r rheolau drafft?
-------------------	--

Rheol 1 – Enwi, Cychwyn, Cymhwyso a Dehongli

15. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i enwi, cychwyn, cymhwyso na dehongli'r Rheolau drafft. Nododd un ymatebydd fod y Rheolau drafft yn "glir a chryno".

Rheol 2 – Ffioedd

16. Cytunodd yr holl ymatebwyr fod cynyddu lefel y ffi am LLC1 a hysbysiad Rhwystro'r Golau ('LON') i gyd-fynd â'r strwythur ffioedd yn Lloegr oedd y dull gweithredu synhwyrol. Tynnodd y rhan fwyaf o ymatebwyr sylw at fanteision y system ganolog, ddigidol newydd i'r cwsmer, gan gynnwys proses fwy esmwyth, gwerth am arian, amseroedd ymateb cyflymach a'r gallu i wirio canlyniadau'r chwiliadau swyddogol am ddiweddariadau am 6 mis yn dilyn y cais. Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod y gofyniad deddfwriaethol i Weinidogion Cymru gynorthwyo'r awdurdodau lleol yn eu gallu i gydymffurfio â Deddf 2015.
17. Mynegodd dau ymatebydd bryder y gallai cynyddu'r ffi, annog rhai o geiswyr chwiliad swyddogol i beidio â chyflwyno chwiliad LLC1 i gofrestr ganolog HMLR. Tanlinellodd un ymatebydd y gallai y gallai trawsgludwyr ystyried defnyddio sefydliadau amgen, megis Cwmnïau Chwilio Personol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon hyn ac mae wedi rhannu'r sylwadau hyn â HMLR. Dim ond ar fater ffioedd a dulliau talu y mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd i ddeddfu.
18. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cydnabod bod y cynnydd o £9 (o £6 i £15 i bob chwiliad swyddogol) yn swm bach o'i gymharu â chyfanswm cost prynu cartref neu dir yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd osgoi croes-gymorthdalau chwiliadau swyddogol yng Nghymru drwy sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio strwythur ffioedd safonol.
19. Awgrymodd un ymatebydd fod angen cynyddu lefel y ffi yng Nghymru i £15 cyn trosglwyddo'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol i HMLR. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn cyflwyno cydraddoldeb ag awdurdodau lleol yn Lloegr ac yn adlewyrchu gwir gost darparu ymatebion i chwiliadau LLC1.

Rheol 3 – Dull Talu

20. Er bod y dulliau talu'n "ddealladwy" tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith y dylid cydnabod y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r dulliau talu arfaethedig, neu nad ydynt

yn gyfforddus yn eu defnyddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pryderon hyn. Mae'n ofynnol i'r dulliau talu arfaethedig fod yn gydnaws â'r system dalu y mae HMLR yn ei defnyddio i weithredu Ochr yn ochr â'u Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ar-lein. Felly, mae HMLR yn mynnu ei bod yn ofynnol i'r dulliau talu a nodir ar gyfer Lloegr fod yr un fath yng Nghymru.

Rheol 4 a 5 - Dirymu

21. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i ddirymu Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977, na diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018.

Ystyriaethau eraill

22. Yn ôl un awgrym, tybiwyd mai dim ond y rhai sy'n prynu eiddo sy'n gwneud chwiliadau LLC1. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall chwiliadau LLC1 gael eu cynnal gan unigolyn am amryw o resymau ond yn nodi y gofynnir am gyfran fawr fel rhan o'r broses prynu eiddo, fel arfer gan drawsgludwr ar ran y prynwr.
23. Nododd ymatebydd arall y gwaith mawr sy'n gysylltiedig â mudo pob awdurdod lleol yng Nghymru. Cydnabuwyd hyn a bydd awdurdodau lleol Cymru yn gymwys i gael taliadau beichiau newydd oddi wrth Gofrestrfa Tir EM. O safbwynt Cymru, gan fod hwn yn faich newydd a roddir ar awdurdodau lleol gan HMLR, bydd awdurdodau lleol Cymru yn gymwys i gael taliadau beichiau newydd oddi wrth HMLR i helpu i liniaru'r costau a ysgwyddir.
24. Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod HMLR wrthi'n cydweithio ag awdurdodau lleol a'r corff sy'n eu cynrychioli, sef Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gytuno ar fframwaith asesu beichiau i Gymru. Gan mai mater a gedwir yn ôl yw Pridiannau Tir Lleol, ac eithrio lefel y ffioedd a'r dulliau talu, mae Llywodraeth y DU'n gyfrifol am dalu'r costau cysylltiedig o dan y fframwaith taliadau beichiau y cytunir arno.

Y camau nesaf

25. Ar ôl ystyried yr ymatebion a roddwyd i'r ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Rheolau fel y'u drafftwyd, yn ddarostyngedig i baragraffau 26 a 27 isod.
26. Dylid nodi y bu diwygiadau drafftio technegol i eiriad o'r Rheolau, ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Gan nad yw'r diwygiadau hynny'n newid swyddogaeth, diben na chwmpas arfaethedig y Rheolau, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i ymgynghori ar y newidiadau hyn.
27. Yn ogystal, cyfeirir at y rheolau arfaethedig fel *Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021* i adlewyrchu'r tebygolrwydd na fyddant bellach yn cael eu gosod a dod i rym tan 2021. Unwaith eto, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i ymgynghori ar y newid technegol hwn.

Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr

- 2 Awdurdod Lleol yng Nghymru
- 1 Awdurdod Parc Cenedlaethol
- 1 Corff Proffesiynol
- 1 Unigolyn
- Roedd un ymatebydd yn dymuno aros yn ddiennw.